Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

Coleg Nyrsio Brenhinol
Tŷ Maeth
King George V Drive East
Caerdydd
CF14 4XZ

Helen Whyley, RN, MA
Cyfarwyddwr Gweithredol, RCN Cymru

Ffôn 02920 680703
E-bost helen.whyley@rcn.org.uk

Paul Mears
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Tŷ Ynysmeurig
Uned 3, Navigation Park
Abercynon
Rhondda Cynon Taf CF45 4SB

Dydd Mawrth 28 Ionawr 2025

Annwyl Paul Mears,

Ddydd Iau 16 Ionawr, rhyddhaodd y Coleg Nyrsio Brenhinol adroddiad dirdynol yn datgelu effaith ddinistriol gofal mewn coridorau ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn ysbytai yng Nghymru ac ar draws y DU.

Yn dilyn hyn, ddydd Mawrth 28 Ionawr, cyhoeddodd RCN Cymru adroddiad polisi yn nodi ein hargymhellion ar gyfer camau gweithredu i ddod â gofal mewn coridorau i ben yng Nghymru. Maent yn cynnwys dosbarthu triniaeth mewn cadair sy'n para dros 24 awr yn Ddigwyddiad Byth, yn ogystal ag adolygiad cenedlaethol o gapasiti GIG Cymru ac yna buddsoddiad wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf.

Mae gofal mewn coridorau—yr arfer o drin cleifion mewn cynteddau, cadeiriau, neu leoliadau amhriodol eraill—wedi dod yn realiti dyddiol i lawer o weithwyr gofal iechyd rheng flaen. Mae cyfleusterau gorlawn, adnoddau annigonol, a galw uchel gan gleifion wedi gorfodi nyrsys a staff eraill i ddarparu gofal mewn amgylcheddau sy'n peryglu diogelwch, urddas ac ansawdd.

Mae gofal mewn coridorau yn digwydd yn eich bwrdd iechyd chi. Mae'r tystiolaethau

Yn parhau.....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

isod, pob un o'ch bwrdd iechyd chi, yn dangos ei effaith ar eich staff nyrsio, aelodau'r RCN, a chleifion.

"Ar ôl dioddef trawiad ar y galon, cefais fy hun mewn adran damweiniau ac achosion brys, lle sydd i fod yn noddfa o ofal a gwellhad ond a wnaeth droi'n gyflym yn braf gwytnwch. Am dri diwrnod hir, eisteddais mewn cadair, ynghlwm i fonitor y galon, wedi fy nghyfyngu i goridor heb unrhyw breifatrwydd na lle priodol. Roedd y diffyg cyfleusterau yn frawychus — dim mynediad at wely, dim ffordd o gael cawod, a fy unig luniaeth oedd brechdan a phaned o de, nid y maeth y byddai rhywun yn ei ddisgwyl ar adeg mor dyngedfennol.

Roedd yr amgylchedd yn llethol. Cefais fy lleoli ger corlan y nyrsys, yn agos at y toiledau, lle'r oeddwn yn gallu gweld cleifion yn cael eu cysuro gan nyrsys, ond tyfodd fy nheimlad fy hun o fod yn agored i niwed gyda phob awr aeth heibio. Fe wnaeth sŵn bipian parhaus y monitorau, y diffyg lle personol, a'r anallu i orffwyso'n iawn fy ngadael i'n teimlo'n agored. Fe wnes i glywed ar ddamwain sgyrsiau cyfrinachol rhwng meddygon, cleifion a theuluoedd, gan ychwanegu at fy anesmwythder — rhywbeth na ddylai fyth ddigwydd, ond a oedd yn foeth na allai neb ei fforddio yn yr amgylchedd prysur a di-drefn.

Roeddwn i'n ofnus, nid yn unig oherwydd fy iechyd fy hun, ond oherwydd yr hyn yr oeddwn i'n ei weld. Roedd y gweithwyr meddygol proffesiynol yn gwneud eu gorau, ond roedd yn boenus o eglur eu bod nhw wedi'u gorymestyn. Gwelais ddau gorff yn mynd heibio wrth iddyn nhw gael eu cludo i'r corffdy, atgoffâd noeth o fregusrwydd bywyd. Fe wnaeth y profiad fy ysgwyd, a fy ngadael yn teimlo'n ddiymadferth, yn agored i niwed ac yn ansicr am yr hyn a fyddai'n digwydd nesaf."

Fe wnaeth aelod o RCN gysylltu ag RCN Direct. Dywedodd wrth RCN Direct bod y man derbyn ychwanegol ar ei ward ysbyty wedi cael ei ehangu ac y bu gostyngiad i nifer y staff nyrsio sy'n gweithio ar shifft, gan adael yr aelod o RCN yn teimlo wedi blino'n lân ac yn emosiynol. Cyfeiriodd yr aelod at y poen moesol y mae nyrsys yn ei ddioddef o ganlyniad i orfod trin cleifion mewn amgylcheddau amhriodol, gan hyd yn oed mynd mor bell ag esbonio sut mae'r poen moesol hwn "yn ei gwneud yn anodd [iddi hi a'i chydweithwyr]

Yn parhau.....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

gyswllt llygaid â chleifion sy'n cael eu trin ar goridor." Mae'r aelod bellach yn cwestiynu a yw hi eisiau parhau i fod yn nyrs.

Un o amcanion eich bwrdd iechyd yw "gwella gofal". Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno nad dyma'r safon gofal y mae eich bwrdd iechyd yn anelu i'w ddarparu.

Mae staff nyrsio yn gweithio'n ddiflino ddydd a nos i ddarparu'r gofal o'r safon uchaf i gleifion. Ond mae normaleiddio gofal coridor yn rhwystro eu gallu i wneud hynny'n ddifrifol. Nid yw aelodau RCN Cymru bellach yn fodlon goddef y sefyllfa annerbyniol hon.

Mae angen gweithredu ar frys ar y mater hwn ar lefel Llywodraeth Cymru, ac rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, rhaid cymryd camau hefyd ar lefel y bwrdd iechyd gan fod dyletswydd arnoch, o dan Adran 25A Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, i ystyried pwysigrwydd gofal nyrsio sensitif. Ni all unrhyw faint o sgil nac ymdrech wneud gofal coridor yn "sensitif". Mae'n annioddefol yn ei hanfod.

Mae ein hargymhellion a gyhoeddwyd yn y briffio heddiw yn gamau clir a chyraeddadwy a all wella tryloywder ac yn y pen draw rhoi diwedd ar ofal coridorau.

O ystyried difrifoldeb pryderon RCN Cymru, rwy'n gofyn am eich sicrwydd ar frys ynglŷn â'r camau gweithredu

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cymryd i sicrhau bod gofal coridor yn cael ei ddileu. Yn benodol, byddwn yn croesawu manylion am y canlynol:

- Mae lefel staffio yn cynyddu lle mae ardaloedd yn uwch na'r gallu planed.
- Cydymffurfio â dyletswyddau Deddf Staff Nyrsio (Cymru) 2016 25A a 25B.
- Gweithgaredd ar Her 50 Diwrnod Llywodraeth Cymru a llwybrau gofal system gyfan.

Rhowch fanylion i mi am eich holl weithredoedd ar frys.

Mae bywydau a diogelwch cleifion mewn perygl.

Yn parhau.....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

Os hoffech gwrdd â mi i drafod y llythyr hwn, cysylltwch â'm swyddfa gan ddefnyddio'r manylion uchod.

Yn gywir



HELEN WHYLEY, RN, MA
CYFARWYDDWR GWEITHREDOL, RCN CYMRU

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Swyddfa Gogledd Cymru/
Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/
General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/
Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.